Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Ffynnonwen**
**Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen**
**Login**
**Hendygwyn ar Daf**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0TA**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016**

**gan**


**Dorothy Morris**
**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 03/05/2016**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Ffynnonwen yn cyfarfod yng Nghanolfan Gymdeithasol Ffynnonwen, ger pentref gwledig Login, Sir Gaerfyrddin.  Mae ar agor pum bore'r wythnos.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 16 o blant fesul sesiwn.  Ar hyn o bryd, mae 16 o blant dwy a thair oed ar y gofrestr.  Mae pump yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i ariannu.  Saesneg yw prif iaith y cartref i'r mwyafrif o'r plant.  Mae ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn y garfan bresennol.

Mae tri aelod o staff yn cynnwys arweinydd amser llawn.  Maent yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau addas ym maes addysg a gofal plant bach.  Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Ionawr 2010.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Gorffennaf 2014 a chan Estyn ym mis Hydref 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu symbylol i'r plant
- mae nodweddion da iawn i'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol y plant
- mae'r berthynas dda iawn rhwng y plant a'r ymarferwyr yn hybu eu hyder fel dysgwyr
- mae'r addysgu effeithiol yn sicrhau ymrwymiad gweithredol yr holl blant yn eu dysgu
- mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd hapus, gofalgar a chynhaliol i'r plant
- mae'r awyrgylch deuluol, sy'n cyfrannu'n arwyddocaol tuag at les a datblygiad y plant, yn nodwedd gref

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae'r arweinydd yn cynnig arweiniad cadarn i waith y lleoliad
- mae'r ymarferwyr yn cyflawni eu rolau'n gydwybodol ac yn gweithio'n effeithiol iawn fel tîm
- mae ymrwymiad yr arweinydd i hybu lles yr ymarferwyr yn y gweithle yn nodwedd ragorol
- mae cadeirydd a swyddogion y pwyllgor rheoli yn cydweithio'n gynhyrchiol gyda'r arweinydd
- mae'r cynllun datblygu yn cynnwys meysydd addas ar gyfer gwelliant
- mae tystiolaeth o welliannau yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus
- mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau a ffyrdd newydd o weithio er mwyn gwella
- mae adnoddau yn cael eu defnyddio'n adeiladol i gefnogi'r dysgu
- mae partneriaethau effeithiol yn cefnogi datblygiad a lles y plant

## Argymhellion

A1 Mireinio'r cynllunio i sicrhau bod gweithgareddau yn ymestyn medrau'r plant yn gyson

A2 Arfarnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn fwy manwl drwy ganolbwyntio ymhellach ar y dysgu a'r addysgu

A3 Datblygu rôl strategol y pwyllgor rheoli

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu symbylol i’r plant ar draws y chwe maes dysgu. Mae’r cynllunio’n seiliedig ar gyfres o themâu sydd yn gweddu i ddiddordebau a lefel datblygiad y plant. Mae’r holl ymarferwyr yn cyfrannu at y cynllunio yn ystod cyfarfodydd staff wythnosol. Mae hyn yn hybu eu dealltwriaeth o’r gweithgareddau i’w cyflwyno. Mae cyfleoedd addas i’r plant gyfrannu at y cynllunio drwy awgrymau gweithgareddau pellach.

Mae’r cynllunio dyddiol yn sicrhau cyfleoedd effeithiol i’r plant ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd. Yn ystod gweithgareddau grŵp, er enghraifft, mae’r plant yn gwrando ar storïau, ymuno mewn caneuon a rhigymau, edrych ar lyfrau a defnyddio medrau marcio. Mae defnydd adeiladol o weithgareddau grŵp, amser cylch ac amser dewis i gyfrif a thrafod rhifau mewn cyd-destunau gwahanol. Mae cynllunio penodol ac offer addas yn darparu profiadau cynhyrchiol i’r plant ddatblygu ystod o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae cynllunio gofalus ar gyfer gweithgareddau dan arweiniad oedolion. Mae’r medrau i’w datblygu a’r gweithgareddau i’w cyflwyno i grwpiau gwahanol yn cael eu nodi’n glir. Mae’r gweithgareddau i ddatblygu medrau rhif y plant yn enghraifft. Er hyn, nid yw’r cynllunio bob amser yn sicrhau bod medrau’r plant, megis medrau llafar Cymraeg, yn cael eu hymestyn yn gyson.

Mae darpariaeth effeithiol i ddatblygu medrau ymchwiliol, creadigol a chorfforol y plant. Er enghraifft, mae defnydd adeiladol o’r ardal allanol i’r plant dyfu blodau a llysiau, chwilio am drychfilod, coginio yn y gegin fwd a phrynu nwyddau yn y siop adeiladu. Mae nodweddion da iawn i’r ddarpariaeth i ddatblygu medrau creadigol y plant. Mae defnydd dychmygus o gyfryngau a deunyddiau gwahanol i ddatblygu ystod eang o fedrau.

Mae ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn cael ei ddatblygu’n effeithiol drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Mae ymweliadau a chyfraniad rhai ymwelwyr yn cefnogi’r dysgu ymhellach. Er enghraifft, mae’r ymweliadau â chapel, siop ac yn arbennig y goedwig yn hybu ymwybyddiaeth y plant o rai o nodweddion eu hardal leol. Yn ogystal, mae ymweliadau’r nyrs a heddwas, er enghraifft, yn datblygu gwybodaeth y plant o rôl rhai pobl yn y gymuned.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth sicr am ddatblygiad plant a gofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy’n ennyn diddordeb y plant ac yn sicrhau eu hymrwymiad gweithredol yn eu dysgu. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy’n cael eu dewis gan y plant a gweithgareddau sy’n cael eu harwain gan yr ymarferwyr. Mae’r gweithgareddau wedi eu paratoi yn drylwyr ac mae defnydd effeithiol o adnoddau i gynorthwyo’r addysgu a’r dysgu.

Mae’r holl ymarferwyr yn rhyngweithio'n effeithiol gyda’r plant. Maent yn siarad â’r plant yn gyson ac yn cynnig adborth llafar adeiladol i gadarnhau’r dysgu. O ganlyniad, mae’r plant yn hyderus i ymuno yn yr ystod o weithgareddau sydd ar gael. Yn ystod gweithgareddau yn yr ardal allanol, er enghraifft, mae defnydd da o gwestiynu i annog plant i feddwl ac ymestyn eu geirfa wrth ymchwilio i ddarganfod pa wrthrychau sy’n arnofio neu suddo yn y badell ddŵr. Er bod anogaeth gyson i’r plant siarad Cymraeg, nid oes digon o sylw bob amser yn ystod y gweithgareddau i annog plant i ddefnyddio'r eirfa newydd a phatrymau brawddeg a gyflwynwyd.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o’u datblygiad cyffredinol a’u hanghenion dysgu. Mae trefniadau manwl i gofnodi cynnydd y plant ar draws y chwe maes dysgu. Mae’r defnydd o dargedau unigol, sy’n cael eu gwirio’n rheolaidd, yn elfen adeiladol. At ei gilydd, mae defnydd priodol o wybodaeth asesu ar gyfer cynllunio’r camau nesaf yn y dysgu. Caiff rhieni eu hysbysu’n rheolaidd am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau dyddiol, adroddiadau manwl a chyfarfodydd rhieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar gydag awyrgylch deuluol sy’n cyfrannu’n arwyddocaol tuag at les y plant. Mae’r trefniadau sefydlu, ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym. Mae’r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol iawn o’r holl blant. Mae hon yn nodwedd gref o’r ddarpariaeth.

Mae defnydd adeiladol o raglenni addysg iechyd cyn-ysgol yn rhoi sylw da i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd byw yn iach. Maent yn cynnwys darparu byrbrydau iachus. Mae bod yn rhan o Gynllun Gwên yn hybu arferion da o ran gofal dannedd.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae gwerthoedd pwysig, megis bod yn garedig, rhannu a gofalu am eraill, yn cael eu hybu’n effeithiol drwy’r gweithgareddau dyddiol. Mae sylw da i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o’r angen i helpu rhai llai ffodus trwy gasglu arian at achosion da. Mae profiadau, megis mynychu gwasanaethau carolau yn y capel, cymryd rhan mewn oedfaon diolchgarwch ac adrodd gweddi cyn gadael, yn cyfrannu’n briodol at ddatblygiad ysbrydol y plant.

Mae darpariaeth effeithiol yn datblygu gwybodaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau i ddathlu’r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Eid Au Fitr a gŵyl Divali. Mae sefydlu cysylltiadau gyda lleoliad meithrin ym Mhatagonia yn hybu ymwybyddiaeth y plant o’r byd ehangach.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da i’r plant ddysgu am gynaliadwyedd a phwysigrwydd gofalu am bopeth byw.  Mae’r ystod profiadau yn cynnwys tyfu planhigion, gofalu am anifeiliaid bach a gweithgareddau ailgylchu amrywiol.  Mae defnydd da o ymweliadau â’r goedwig i ddarparu cyfleoedd pwrpasol i’r plant astudio anifeiliaid a phlanhigion yn eu cynefin.  Mae’r lleoliad yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd gweithredu’n gynaliadwy ac wedi ennill Baner Werdd Eco-Sgolion am yr ail dro.

Mae trefniadau sefydlog ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.  Maent yn cynnwys llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol megis gwasanaethau meddygol a gwasanaethau cefnogi medrau iaith a lleferydd plant.

Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae ethos y lleoliad yn creu awyrgylch croesawgar a hapus i’r holl blant.  Mae’n gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal i’r profiadau dysgu a ddarperir.  Mae’r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu’n effeithiol yn unol â’r wybodaeth hon.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr gyda chymwysterau addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen.  Ar y cyfan, mae digon o adnoddau i gefnogi'r gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu.  Maent o fewn cyrraedd y plant ac yn hyrwyddo dysgu annibynnol yn effeithiol.

Mae’r adeilad yn hen ac yn darparu cyfleusterau o ansawdd digonol.  Mae defnydd effeithiol o’r gofod sydd ar gael trwy drefnu ardaloedd gweithgareddau o amgylch yr ystafell.  Mae arddangosfeydd o waith y plant yn cyfrannu at greu amgylchedd lliwgar a deniadol.  Mae’r ardal allanol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i’r plant ymarfer eu medrau corfforol, creadigol a datrys problemau.  Mae’r adeilad a’r safle yn lân a diogel.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae’r arweinydd yn darparu cyfeiriad cadarn i waith y lleoliad.  Mae ganddi amcanion clir.  Mae darparu profiadau dysgu cyfoethog a hyrwyddo datblygiad y plant yn flaenoriaethau uchel.  Mae’n cyfathrebu’n effeithiol gyda’r plant a’u rhieni, y staff ac asiantaethau gwahanol.  O ganlyniad, mae perthnasau gwaith da yn y lleoliad.

Mae’r ymarferwyr yn ymgymryd â’u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn cydweithio’n effeithiol iawn fel tîm.  Mae defnydd cynhyrchiol o’u medrau a’u diddordebau i arwain a chefnogi gweithgareddau gwahanol.  Mae’r sesiynau yn rhedeg yn llyfn ac yn sicrhau amgylchedd trefnus a phwrpasol i’r plant.

Caiff polisïau perthnasol eu rhoi ar waith yn gyson. Mae trefniadau sefydlog ar gyfer gwerthuso gwaith ac adnabod datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr. Mae'r arweinydd yn trafod gydag ymarferwyr unigol yn rheolaidd, sy'n cynnig cefnogaeth bellach.

Mae'r pwyllgor rheoli wedi ymrwymo'n gryf i waith y lleoliad. Mae'r aelodau yn gweithio'n galed i godi arian i sicrhau adnoddau ychwanegol. Mae'r swyddogion yn cydweithio'n agos gyda'r arweinydd ac yn cyfrannu'n rheolaidd o'u harbenigedd proffesiynol a'u profiad. Fodd bynnag, mae rôl strategol y pwyllgor, megis trafod a monitro gweithredu'r cynllun datblygu, yn llai datblygedig.

Mae'r lleoliad yn rhoi sylw dyledus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, datblygu medrau Cymraeg y plant a hybu arferion byw'n iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinydd wybodaeth sicr o brif gryfderau'r lleoliad drwy arsylwi, trafodaethau cyson gyda'r ymarferwyr, a monitro cofnodion asesu cynnydd y plant. Mae'n ceisio barn aelodau'r pwyllgor rheoli, rhieni ac asiantaethau cefnogi ac yn gweithredu ar y wybodaeth a dderbynnir.

Mae cyfarfodydd staff wythnosol yn cael eu defnyddio'n adeiladol i drafod y ddarpariaeth ac i gynllunio ymlaen. Er hyn, mae ystyriaeth fwy manwl o agweddau ar yr addysgu a'r dysgu yn elfen sydd heb ddatblygu'n llawn.

Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio er mwyn gwella. Mae'r defnydd ehangach o'r ardal allanol yn enghraifft. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda swyddog cyswllt yr awdurdod lleol i ddatblygu'r ddarpariaeth megis y sylw i hyrwyddo medrau rhif a TGCh y plant.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnig adolygiad cytbwys o'r ddarpariaeth. Mae'n nodi cryfderau'r ddarpariaeth yn ogystal ag amlygu agweddau penodol sydd angen sylw megis datblygu medrau llythrennedd cynnar y plant ymhellach. Mae'r cynllun datblygu sy'n deillio o hyn yn cynnwys targedau perthnasol, ac yn nodi tasgau a chyfrifoldebau. Caiff y cynllun ei weithredu'n briodol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn cyd-weithio'n gynhyrchiol gydag ystod o asiantaethau i hyrwyddo lles ac addysg y plant. Er enghraifft, mae'r defnydd adeiladol o asiantaethau arbenigol yn cynorthwyo'r ymarferwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o'r angen i ddiogelu'r amgylchfyd. Mae'r lleoliad wedi ennill Gwobr Garddio a gwobr Ymddiriedolaeth Coed Cadw am blannu coed ar safle'r lleoliad.

Mae ymrwymiad yr arweinydd i hybu lles yr ymarferwyr fel elfen angenrheidiol o sicrhau'r ddarpariaeth orau posibl i'r plant yn nodwedd ragorol. Mae ennill tystysgrif aur 'Gwobr Iechyd Gweithle Bach' yn cydnabod llwyddiant y lleoliad o ran hybu lles ac iechyd yr holl staff.

Mae perthynas gadarn wedi'i sefydlu gyda'r rhieni a'r gofalwyr. Maent yn derbyn gwybodaeth berthnasol ar lafar, trwy lyfrynnau, cylchlythyron a'r hysbysfwrdd. Mae defnydd o hysbysfwrdd mawr yn yr ardal allanol i gofnodi gweithgareddau'r plant yn ystod y bore yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y rhieni.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau buddiol gyda'r gymuned. Mae'n cynnal gweithgareddau llwyddiannus ar gyfer y rhieni a'r gymuned, megis y 'prom', a gweithgareddau codi arian. Mae'r ymarferwyr, y plant a'r rhieni yn mynychu gwasanaeth carolau yn flynyddol gyda chylchoedd meithrin eraill yr ardal.

Mae'r cysylltiadau cynhyrchiol gyda'r ysgol gynradd leol, megis ymweliadau gan y plant a mynychu cyngherddau'r ysgol, yn hybu trosglwyddiad esmwyth i'r plant i gam nesaf eu haddysg.

Mae cydweithio pwrpasol gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a swyddog Mudiad Meithrin yn arwain at welliannau yng ngwaith y lleoliad drwy'r cyngor ymarferol a ddarperir. Mae'r cyfleoedd i'r arweinydd i ymuno ag arweinwyr lleoliadau eraill yr ardal yn ddefnyddiol ar gyfer rhannu syniadau a phrofiadau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol. Mae defnydd effeithiol o amser a medrau unigolion i arwain gweithgareddau, ac o adnoddau i gefnogi'r dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas ar ofynion y Cyfnod Sylfaen ac ar agweddau ar ddatblygiad a gofal plant. Mae effaith gadarnhaol yr hyfforddiant mwyaf diweddar i'w weld yn y cynllun datblygu gyda tharged i ddatblygu medrau llythrennedd y plant ymhellach. Mae'r arweinydd wedi ymweld â lleoliadau eraill ac wedi derbyn rhai ymwelwyr i arsylwi arfer dda.

Mae gan yr arweinydd a swyddogion y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a chaiff penderfyniadau gwariant eu blaenoriaethu'n addas yn ôl anghenion y lleoliad. Dilynir trefniadau cyllidebu systematig a gwneir defnydd rheolaidd o fentrau codi arian er mwyn ychwanegu at yr adnoddau.

O ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth, y profiadau dysgu a'r gofal a chymorth i'r plant, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol –**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |